




SENEDD!



Polisiâu sy'n Darfod yn 19/20

Senedd

4/11/2019



Mentoriaid o blith Cyfoedion i bob Myfyriwr

Dylai UMAber weithio gyda'r Brifysgol i weithredu system lle mae nifer o fentoriad o blith cyfoedion, gyda mwy o ffocws ar agweddau personol na'r academiaidd.

Manylion:

Y Ffeithiau:

1. Mae system ar gyfer mentoriaid academiaidd yn bodoli eisoes, serch hynny nid yw hon yn ymdrin â'r amryfal agweddau o fywyd yn y brifysgol

Barn y Bobl:

1. Bydd gwella cymorth ymysg cyfoedion yn cyfrannu at lesiant poblogaeth y myfyrwyr am flynyddoedd i ddod, yn ogystal â chreu cyswllt ar draws blynyddoedd astudio.

2. Mae hwn hefyd yn gyfle i bobl gyfoethogi eu CV, gan nodi eu bod wedi mentora rhywun yn y brifysgol.

Y Datrasiad:

1. Drwy weithredu system lle mae nifer o fentoriaid o blith cyfoedion, a fyddai ar gael unwaith yr wythnos (neu fwy?) i fentora naill ai myfyriwr unigol neu amryw ohonynt.

Statws: Cyflawnwyd

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Llesiant

Cyflwynwyd Gan: Jordan Harvey

Pasiwyd: 12/5/2016, Y Cyfarfod Mawr

Dyddiad Darfod: 12/1/2019

Gweithredu:

Mae'r Swyddog Llesiant yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cymorth i Fyfywyr, gan sicrhau bod y Brifysgol, ar draws pob athrofa, yn darparu mentora gan gyfoedion drwy 'Signpost'. Drwy'r cynllun hwn rhoddir amryw o fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf yr ystyrir hwy i fod mewn risg, dan ofal y myfyrwyr hynny sy'n gwirfoddoli er mwyn eu mentora a'u cynorthwyo. Ymhlith y rhain mae myfyrwyr rhyngwladol neu fyfyrwyr o



SENEDD!

gefndir teuluol llai cefnog. Bydd y mentoriaid yn cynnig cymorth academiaidd iddynt, ond yn ogystal â hynny'n sicrhau eu llesiant er mwyn iddynt barhau i fod yn bositif gydol y flwyddyn. Rydym hefyd ar hyn o bryd yn gweithio ar agor y cynllun mentora cyfoedion i'r rheiny sydd am optio i mewn gydol yr 2il a'r 3edd flwyddyn os yw hynny'n bosib. Mae 'Signpost' yn darparu hyfforddiant ar gyfer pob myfyriwr sy'n cymryd rhan, gan felly wneud y system yn gyson ar draws y sefydliad.

Roedd y Brifysgol yn gallu, drwy'r adran Cymorth i Fyfyrrwyr, Undeb y Myfyrrwyr a chydweithwyr ar draws adrannau, gwneud ymrwymiad i sefydlu cynllun mentora flwyddyn ynghynt na'r disgwyl yn 2017/18.

Mae Undeb y Myfyrrwyr yn bartner allweddol yn y gwaith hwn, gan fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd bob tymor rhwng Cydlynwyr y Cynllun mewn Adrannau a Chymorth i Fyfyrrwyr. Helpwyd i gynnal y gynhadledd fentora gyntaf ym mis Chwefror 2018, cyflwynwyd gwobr Mentor Myfyrrwyr y Flwyddyn yn ein gwobrau UMAber yn Dathlu 2018, helpwyd â recriwtio a rhoddwyd cydnabyddiaeth i nifer o fentoriaid drwy ein Gwobr Aber.

Mae'r gwaith yn parhau gyda datblygu hyfforddiant, cynorthwyo ag adnoddau a chydabyddiaeth y ogystal ag edrych ar y ffordd orau o gynnig cefnogaeth i fentora cyfoedion yn Aberystwyth yn y dyfodol.

Mae'r Swyddog Llesiant yn parhau i gymryd rhan yn y trafodaethau hyn, a bydd yn codi materion ac yn ceisio adborth drwy'r Parth Llesiant a Swyddogion Gwirfoddol.



Diweddaru ein His-ddeddf Etholiadau

Mae'r diweddariad yn cynnwys proses gwynion ac apeliadau eglur, ac mae'n sicrhau y bydd gennym ni etholiad teg a thryloyw.

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Mae ein His-ddeddf Etholiadol yn rhy hir, cymhleth a chyfyngedig.

Barn y Bobl:

1. Drwy symleiddio'r Is-ddeddf Etholiadol, bydd yr iaith a'r prosesau'n haws eu defnyddio a chyfranogi ynddynt. Mae'r ffurf arfaethedig yn ceisio gwneud Etholiadau'n fwy chynhwysol, ac mae'n gosod dyddiadau cau clir er mwyn cynnal Etholiad democrataidd a chyson.

Y Datrysiad:

1. Is-ddeddf bresennol: [pdf link].
2. Is-ddeddf arfaethedig (tudalen flaen wedi'i labelu'n glir): [pdf link].
3. Cynnwys proses glir ar gyfer cwynion ac apeliadau.
4. Sicrhau bod gennym etholiad teg a thryloyw.

Statws: Diddymwyd

Swyddog Gyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd Gan: Lauren Marks

Pasiwyd: 12/5/2016, Senedd

Dyddiad Darfod: 12/1/2019

Gweithredu:

Mabwysiadwyd yr Is-ddeddf Etholiadol gan y cyfarfod.

Disodlwyd y polisi gan Adolygiad Rôl 2016.

Yik Back

Codi'r gwaharddiad ar y llwyfan cyfryngau cymdeithasol 'Yik Yak' a osodwyd gan y Brifysgol.

Manylion:

Y sefyllfa:

1. Yn ddiweddar mae'r brifysgol wedi gwahardd YikYak rhag rhwydwaith y brifysgol, sef gweithred ceisiodd UCM ei gwneud ond bu i gynrychiolwyr UCM ymatal yn erbyn hyn. Er bod bwlio'n agwedd ffaidd o fywyd dynol a'i fod yn rhan o bob cyfrwng cymdeithasol, nid gwahardd YikYak mo'r ateb.

Barn y Bobl:

1. Mae gen i ffydd yn yr awdurdodau i ddelio ag ymddygiad o'r fath, serch hynny nid gwahardd mo'r ateb. Y cyfan mae'n ei wneud yw gyrru'r ymddygiad hwn i rywle arall lle mae'n anoddach delio ag ef ac mae'r ffaith bod modd i ni ddefnyddio YikYak drwy becynnau data a band llydan eiddo preifat yn golygu bod y gwaharddiad yn aneffeithiol.

Y datrysiad:

1. Galwaf ar Undeb y Myfyrwyr i ddwyn pwysedd ar y brifysgol i ddileu'r gwaharddiad aneffeithiol hwn cyn gynted â phosib. Ni fyddem yn gwahardd Facebook neu Twitter er bod myfyrwyr yn cael profiadau negyddol arnynt, a bod hynny'n digwydd pob dydd.

Statws: Cyflawnwyd

Swyddog Gyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd Gan: Ieuan Joy

Pasiwyd: 12/5/2016, Y Cyfarfod Mawr

Dyddiad Darfod: 12/5/2019

Gweithredu:

Cysylltodd Lywydd UMAber 2016/17 â'r Brifysgol i'w hysbysu o benderfyniad democrataidd y myfyrwyr. Codwyd y gwaharddiad ar Yik Yak y dilyn gwaharddiad dros dro ar rwydwaith y Brifysgol yn unig.

Dylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth annog Prifysgol Aberystwyth i fod yn gampws cyflog teg

Dylid annog Prifysgol Aberystwyth i fod yn gampws cyflog teg, drwy gyhoeddi'r gymhareb rhwng y gweithwyr sydd ar y cyflog uchaf â'r rheiny sydd ar y cyflog isaf, gwneud addewid i dalu cyflog byw i'n staff, a sicrhau bod contractwyr yn talu cyflog byw i'w

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Mae gwahaniaeth mewn cyflogau o fewn prifysgolion cryn lawer uwch nag ydynt yn y sectorau cyhoeddus eraill. Mae gwahaniaeth enfawr rhwng cyflog y rheiny sydd ar y cyflogau uchaf a'r rheiny sydd ar y gwaelod; byddai rhaid i'r sawl sydd ar y cyflog isaf weithio 18.8 mlynedd ar gyfartaledd i ennill cyflog blynyddol pennaeth y Brifysgol.
2. Ar hyn o bryd, mae is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth yn ennill £252,000 y flwyddyn. Ar yr un pryd, mae cannoedd o staff yn ennill llai na'r Cyflog Byw, gydag amryw o'r rhain ar yr Isafswm Cyflog. Mae'r Isafswm Cyflog ar hyn o bryd yn £7.20 yr awr. Mewn wythnos waith 40 awr, bydd gweithiwr ar yr isafswm cyflog yn ennill llai na £15,000 y flwyddyn, sydd tua 17 gwaith yn llai na'r is-ganghellor.

Barn y Bobl:

1. Does dim cysylltiad amlwg rhwng prifysgol yn perfformio'n dda a'i staff yn cael eu talu'n unol â hynny. Mae chwe phrifysgol yn talu cyflog uwch i'w prif aelod staff na Phrifysgol Caergrawnt, ond yn perfformio'n is yn y tablau cynghrair.
2. Byddai digon o arian yn y system i dalu Cyflog Byw i'n holl staff, pe na fyddai arferion cyflogau'n canolbwyntio ar dalu cyflogau uchel i leiafrif o staff.
3. Mae'r Cyflog Byw yn raddfa gyflog a osodir yn annibynnol ar lefel sy'n caniatáu i bobl fyw'n weddol gyfforddus a darparu'n ddigonol ar gyfer eu teuluoedd. Mae hyn yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai pobl gael eu talu digon i fyw, nid dim ond bodoli. Ar hyn o bryd, mae'n £8.45 yr awr.
4. Nid cyflog isel yw'r unig broblem sydd angen ei datrys, ac ni ddylid edrych arni ar wahân. Mae tystiolaeth bod anghydraddoldeb cynyddol yn dwysau gwrthdaro cymdeithasol, y gwanhau cysylltiadau cymdeithasol a'i fod yn niweidiol i bawb, boed gyfoethog neu dlawd.

Y Datrysiaid:



Er mwyn bod yn gampws cyflog teg, rydym yn annog Prifysgol Aberystwyth i wneud y canlynol:

1. Cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a'r isaf.
2. Ymrwymo i weithio tuag at gymhareb o 10:1 ar y campws.
3. Addo talu Cyflog Byw i weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol.
4. Sicrhau bod contractwyr yn talu Cyflog Byw i'w gweithwyr.
5. Cyhoeddi cyflogau'r Is-ganghellor ac uwch-reolwyr y sefydliad.
6. Ni ddylai fod unrhyw effaith negyddol ar gyflogaeth nag oriau gwaith y staff fel rhan o'r cynllun hwn.

Statws: Rydym yn gweithio arno

Swyddog Gyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd Gan: Iolo Jones

Pasiwyd: 12/5/2016, Y Cyfarfod Mawr

Dyddiad Darfod: 12/5/2019

Gweithredu:

Dechreuodd Prifysgol Aberystwyth weithredu'r Cyflog Byw Go Iawn ym mis Ebrill 2018 pan roddwyd y rhan fwyaf o'r staff ar y gyfradd Cyflog Byw Go Iawn. Cwblhawyd y broses hon yn Awst 2018 pan gawsom gytundeb gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i amrywio telerau'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer ein gweithwyr fferm. Felly, o fis Awst 2018 ymlaen, mae pob aelod staff a gyflogir gan y Brifysgol yn derbyn isafswm y gyfradd Cyflog Byw Go Iawn. Rydym hefyd yn annog contractwyr i dalu'r Cyflog Byw Go Iawn yn ogystal.

<https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2018/11/title-218321-cy.html>

Mae'r Brifysgol wedi cadarnhau y bydd ffigurau sy'n ymwneud â chyflogau gweithwyr, gan gynnwys cyflog yr Is-Ganghellor, yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol yn y Datganiad Cyflogau a Chyfrifon Ariannol.

Dylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth annog Prifysgol Aberystwyth i ddadfuddsoddi rhag tanwyddau ffosil

Dylai UMAber annog y Brifysgol i fod yn fwy cydnaws â'r amgylchedd drwy symud ei harian i ffwrdd o fuddsoddiadau mewn tanwyddau ffosil, gan gynnwys ymchwil a gwobrau i arweinwyr y diwydiant. Dylai'r Brifysgol fod yn dryloyw o ran ei chysylltiadau â'r diwy

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Yn nhabl cynghrair diweddaraf People and Planet, daeth Prifysgol Aberystwyth yn 110fed allan o 150 yn y DU o ran cynaladwyedd. Hefyd cafodd sgôr o 0% am fuddsoddiad moesegol a dyma'r rhesymau:

- Mae gan Brifysgol Aberystwyth £2,122,752 (Ffynhonnell: People and Planet) wedi'i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil.

- Mae hefyd yn derbyn £377,496 o gyllid ymchwil o'r diwydiant tanwyddau ffosil ac nid yw'n rhoi dim cyllid tuag at ymchwilio i dechnolegau adnewyddadwy ers 2001. (Ffynhonnell: (People and Planet).

- Ar hyn o bryd nid oes gan y brifysgol ymrwymiad i ddadfuddsoddi o danwydd ffosil.

2. Yn yr arolwg diweddar ar gynaladwyedd a gynhaliwyd ymysg staff a myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, dwedodd 91% o'r ymatebwyr y dylai'r Brifysgol wneud mwy i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd, a dwedodd 92% y dylai'r Brifysgol ddadfuddsoddi o danwydd ffosil.

Barn y Bobl:

1. Os yw'r anghywir i ddinistrio'r amgylchedd, yna mae elwa o'r dinistr hwnnw'n anghywir. Mae gormod o brifysgolion y DU yn cefnogi'r diwydiant tanwydd ffosil yn uniongyrchol drwy eu hymchwil, eu gwaddolion a'u buddsoddiadau, yn ogystal â'u partneriaethau â rhai o'r cwmnïau tanwydd ffosil mwyaf yn y byd, megis BP a Shell. Rydym yn galw ar Brifysgol Aberystwyth i dorri pob cysylltiad â'r diwydiant tanwydd ffosil, sy'n gosod elw o flaen pobl.

Y Datrysiad:

1. Symud ei harian.

- Chwilio am ac allgau'r diwydiant tanwydd ffosil o bortffolio buddsoddiadau'r Brifysgol.



- Rhewi unwaith unrhyw fuddsoddiad newydd mewn cwmnïau tanwydd ffosil.
 - Dadfuddsoddi o'r diwydiant tanwydd ffosil a throsglwyddo'r arian i fuddsoddiadau cadarnhaol, moesegol o fewn 5 mlynedd.
2. Cefnogi dyfodol ar gyfer ynni glân a swyddi gwyrdd.
- Dylid darparu myfyrwyr Aberystwyth â chyngor moesegol ar yrfaeodd a chyfleoedd
 - Ail-gyfeirio ymchwil ac arbenigedd ar ddatrysiadau hinsawdd a dirwyn i ben yn raddol ymchwil i danwydd ffosil sy'n niweidio'r hinsawdd.
 - Mynnu mwy o gyllido ar gyfer ynni adnewyddadwy gan gwmnïau tanwydd ffosil a'r llywodraeth.
3. Rhoi terfyn ar y ffug-wyrddio.
- Cyhoeddi manylion llawn unrhyw gysylltiadau ariannol â'r diwydiant tanwydd ffosil.
 - Rhoi'r gorau i gyflwyno graddau er anrhydedd i Brif Weithredwyr y diwydiant tanwydd ffosil.
 - Peidio â derbyn nawdd nac arian hysbysebu gan gwmnïau tanwydd ffosil.
-

Statws: Rydym yn gweithio arno

Swyddog Gyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd Gan: Iolo Jones

Pasiwyd: 12/5/2016, Y Cyfarfod Mawr

Dyddiad Darfod: 12/5/2019

Gweithredu:

Cysylltodd y Llywydd â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a gadarnhaodd fod y Pwyllgor Buddsoddi ar hyn o bryd yn adolygu polisi buddsoddi'r Brifysgol, sy'n cynnwys datganiad ar fuddsoddiadau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw efallai'n bosibl canfod faint yn union o arian sydd wedi'i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil na'u gwahanu'n llwyr rhag penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd bod gan y Brifysgol rwymedigaeth statudol o dan y Gyfraith Elusennau i sicrhau'r incwm mwyaf posibl, gan gynnwys cronfeydd cyfunol, sy'n golygu na all ddylanwadu'n uniongyrchol ar y polisiau buddsoddi.



SENEDD!

Cytunodd y Cyfarwyddwr i ymchwilio ymhellach i'r mater gyda chynghorwyr buddsoddi'r Brifysgol a bwydo safbwynt yr Undeb i'r adolygiad o'r polisi presennol a sut y caiff ei weithredu.

Mae Polisi Buddsoddi cyfredol y Brifysgol ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen isod:

<https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/finance/pdf/Investment-Policy----January-17.pdf>

Byddai angen dod â'r polisi wedi'i ddiweddarau ger bron Cyngor y Brifysgol yn y dyfodol agos, lle byddai'r Llywydd yn gallu gwneud sylwadau cyn ei gymeradwyo.

Ers hynny rydym wedi ceisio gwneud trefniadau gyda'r bobl berthnasol ynglŷn â chynyddu'r ffynonellau ynni adnewyddadwy ar y campws. Mae cyfarfodydd wedi'u trefnu i drafod gweithrediad y polisi.



Polisi Aflonyddu Rhywiol

Mabwysiadu'r Polisi Aflonyddu Rhywiol newydd

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Yn 2010, pasiodd Cyngor yr Undeb bolisi "Dim Goddefgarwch o Aflonyddu Rhywiol yn ein Hundeb" oedd yn mandadu UMAber i fabwysiadu polisi ar Aflonyddu Rhywiol.

Barn y Bobl:

2. Dylai myfyrwyr deimlo'n ddiogel yn ein Hundeb ac mae'r polisi hwn yn nodi'r eglur beth i'w wneud os ydych yn dioddef aflonyddu a sut i gael cymorth; mae hefyd yn amlinellu'r broses ddisgyblu ar gyfer y rheiny sy'n ymddwyn yn amhriodol.

Y Datrasiad:

3. Dylai aelodau Cyngor yr Undeb bleidleisio i sicrhau bod UMAber yn mabwysiadu'r polisi arfaethedig.

Statws: Rydym yn gweithio arno

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Llesiant

Cyflwynwyd Gan: Lauren Marks

Pasiwyd: 12/5/2016, Y Cyfarfod Mawr

Dyddiad Darfod: 12/5/2019

Gweithredu:

Yn 2019, lansiodd UMAber ei ymgyrch 'Dim Esgusodion' yn targedu bwlio ac aflonyddu ar y campws. Roedd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i ddatblygu Cod Myfyrwyr newydd ar Urddas a Pharch, yn ogystal â systemau newydd ar gyfer adrodd a chynnig cymorth. Mae'r system adrodd yn cynnwys y gallu i reportio'n ddiennw neu drwy drydydd parti. Rydym yn dal ati i hyrwyddo'r gwaith hwn.



Yr ynni a ddefnyddir gan yr Undeb/y Brifysgol

Dylai UMAber annog y Brifysgol i ddefnyddio paneli solar fel y brif ffynhonnell ar gyfer ynni, ac ystyried ffurfiau eraill mwy creadigol o ynni adnewyddadwy i lenwi'r bwloch yn ystod gwahaniaethau tymhorol pan na ellir cynhyrchu ynni solar.

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Ar hyn o bryd, mae'n dibynnu ar y grid cenedlaethol, sydd ddim yn adnewyddadwy, gan nad yw'n darparu ynni adnewyddadwy. Felly mae'n anghynnaladwy ac yn gwneud niwed i'r amgylchedd.

Barn y Bobl:

2. Bydd symud at gynhyrchu ynni mwy cynaliadwy yn well i'r amgylchedd ac yn atal newid hinsawdd. Yn yr hirdymor, bydd y buddsoddiad hefyd yn lleihau costau ynni'r Undeb a'r Brifysgol gan y bydd modd iddynt gyflenwi rhai ohono eu hunain.

Y Datrysiad:

1. Annog y Brifysgol i ddefnyddio paneli solar fel y brif ffynhonnell ar gyfer cynhyrchu ynni.

2. Defnyddio paneli solar fel y brif ffynhonnell ar gyfer cynhyrchu ynni. Mae ymgynghoriad ar fferm solar ac archwiliad o doeau adeiladau'r brifysgol yn cael eu cynnal a bydd y syniad hwn yn pwysu am gefnogaeth o ynni adnewyddadwy yn Aberystwyth i barhau i greu paneli solar.

3. Defnyddio ffurfiau eraill, mwy creadigol, o ynni adnewyddadwy i lenwi'r bwloch yn ystod gwahaniaethau tymhorol pan na ellir cynhyrchu ynni solar. Ymchwilio i brosiect cymunedol o fewn yr ardal i wneud cynhyrchu ynni'n fwy effeithlon.

Statws: Rydym yn gweithio arno

Swyddog Gyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd Gan: Kelly Furlong

Pasiwyd: 12/5/2016, Y Cyfarfod Mawr


Dyddiad Darfod: 12/5/2019



SENEDD!

Gweithredu:

Mae'r Undeb wedi gofyn i'r Brifysgol ystyried gweithredu'r Paneli Solar a ffurfiau ynni adnewyddadwy eraill yn unrhyw waith adnewyddu a gwaith adeiladu.



UMAbber a Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Partneriaeth

Dylai swyddogion UMAber weithio'n adeiladol mewn partneriaeth â chynrychiolwyr BIHDd i sicrhau bod llais myfyrwyr yn cael ei glywed yn uniongyrchol gan BIHDd. Bydd UMAber yn diddymu eu PDdH yn BIHDd.

Dylem gynnal arolygon ymysg myfyrwyr ar wasanaethau iechyd lleol yn rheolaidd, cyhoeddi'r canlyniadau a'u hadrodd yn ôl yn uniongyrchol i gynrychiolwyr BIHDd. Dylem, pan fo hynny'n berthnasol ac yn bosib, fynychu fforymau a chyfarfodydd iechyd lleol, a gweithio gyda BIHDd er mwyn sicrhau bod llais myfyrwyr yn cael ei gynrychioli ar bob pwyllgor lleol perthnasol. Dylai UMAber barhau i gynnal digwyddiadau fforwm ar gyfer myfyrwyr er mwyn cwrdd yn uniongyrchol â chynrychiolwyr BIHDd. Dylen nhw ymgynghori â myfyrwyr a Swyddogion UMAber (fel cynrychiolwyr myfyrwyr) ar newidiadau i wasanaethau a fydd yn effeithio ar boblogaeth y myfyrwyr.

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Yn 2014, pasiodd UMAber gynnig o Ddiffyg Hyder ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda (BIHDd).
2. Mae diffyg llais myfyrwyr ar faterion iechyd lleol wedi bod yn y gorffennol.
3. Mae BIHDd yn cwrdd yn rheolaidd â'r Brifysgol, ond yn y gorffennol nid ydynt wedi cwrdd yn uniongyrchol â myfyrwyr.
4. Mae myfyrwyr yn rhanddeiliaid sylweddol mewn gwasanaethau iechyd lleol.
5. Yn Nhachwedd 2016, cynhaliodd UMAber arolwg ymysg myfyrwyr ar wasanaethau iechyd lleol, a chyflwynwyd hwn i BIHDd, gan agor sianel gyfathrebu newydd a dechrau perthynas weithio newydd.
6. Yn Chwefror 2017, cynhaliodd UMAber fforwm lle gallai myfyrwyr gwrdd â chynrychiolwyr BIHDd yn uniongyrchol.

Barn y Bobl:

1. Mae'n hanfodol bwysig bod gan fyfyrwyr lais ar wasanaethau iechyd lleol a materion sy'n effeithio arnyn nhw.
2. Dylai gwasanaethau iechyd lleol fod yn gallu cynnal poblogaeth myfyrwyr Aberystwyth.



3. Mae gan UMAber, fel llais myfyrwyr, gyfrifoldeb i weithio mewn partneriaeth â BIHDd er mwyn sicrhau bod llais myfyrwyr yn cael ei glywed a bod gwaith BIHDd er budd myfyrwyr.

Y Datrysiad:

1. Dylai swyddogion UMAber weithio'n adeiladol mewn partneriaeth â chynrychiolwyr BIHDd i sicrhau bod llais myfyrwyr yn cael ei glywed yn uniongyrchol gan BIHDd.
2. Er mwyn sicrhau gwir bartneriaeth, dylai UMAber ddiddymu eu Pleidlais o Ddiffyg Hyder yn BIHDd
3. Dylai swyddogion UMAber, mewn partneriaeth â BIHDd, gynnal arolygon â myfyrwyr yn rheolaidd ar wasanaethau iechyd lleol, cyhoeddi'r canlyniadau a'u hadrodd yn ôl yn uniongyrchol i gynrychiolwyr BIHDd
4. Dylai swyddogion UMAber sicrhau bod cynrychiolwyr BIHDd yn ymateb i ohebiaeth ar faterion sy'n perthyn i iechyd myfyrwyr.
5. Dylai swyddogion UMAber fynychu fforymau a chyfarfodydd iechyd lleol, lle bo hynny'n berthnasol ac yn bosib, a gweithio gyda BIHDd i sicrhau bod llais myfyrwyr yn cael ei gynrychioli ar bob pwyllgor perthnasol
6. Dylai UMAber barhau i gynnal digwyddiadau fforwm er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â chynrychiolwyr BIHDd.
7. Dylai BIHDd ymgynghori â myfyrwyr a swyddogion UMAber (fel cynrychiolwyr myfyrwyr) ar newidiadau mewn gwasanaethau a fydd yn effeithio ar boblogaeth y myfyrwyr.

Statws: Cyflawnwyd

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Llesiant

Cyflwynwyd Gan: Naomi Cutler

Pasiwyd: 2/27/2017, Senedd

Dyddiad Darfod: 2/1/2020

Gweithredu:

Cynhaliwyd ymchwil i wasanaethau iechyd lleol yn 2016/17 (cyhoeddwyd yr adroddiad ar wefan UMAber).


Cynhaliwyd fforwm iechyd myfyrwyr yn 2017.



SENEDD!

Mae swyddogion UMAber wedi bod yn cwrdd yn rhagweithiol ac yn rheolaidd â BIHDd.

Darperir blog diweddarau gan ein Swyddog Lles.



Asesiad ac Adborth

Dylai Swyddogion UMAber barhau i weithio gyda'r Brifysgol i sicrhau bo y polisi Adborth ac Asesiad yn cael ei weithredu'n llawn, gan sicrhau bod pob aelod staff yn ymwybodol ohono a bod ganddynt yr arfau angenrheidiol. Dylai Swyddogion UMAber hyrwyddo egwyddorion Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) ar gyfer adborth ac asesiad i'r brifysgol fel safonau arfer da yn y maes hwn, a rhoi cymorth i Gynrychiolwyr Academiaidd mewn codi materion sy'n perthyn i asesiad ac adborth. Bydd Swyddogion UMAber yn rhedeg ymgyrchoedd perthnasol ar asesiad ac adborth.

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf, bu Swyddogion UMAber wrthi'n datblygu Polisi Asesiad ac Adborth newydd cynhwysfawr ar gyfer y brifysgol.
2. Daw adborth ar sawl ffurf, ac mae'n elfen bwysig o'r broses ddysgu.
3. Mae adborth yn gwneud mwy na dim ond adlewyrchu cyraeddiadau, a dylid ei ddefnyddio ar gyfer gwella asesiadau myfyrwyr at y dyfodol.

Barn y Bobl:

1. Mae Adborth ac Asesiad wastad yn gategori sy'n derbyn sgôr is na'r lleill ym Mhrifysgol Aberystwyth yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), ac mae'n faes y dymuna'r brifysgol wella arno.
2. Mae rhai aelodau staff yn methu cynnal pob elfen o'r polisi'n rheolaidd, gan adael rhai myfyrwyr dan anfantais.
3. Mae gan fyfyrwyr hawl i adborth amserol, cynhwysfawr, cywir a chadarnhaol sydd hefyd yn eu cynorthwyo i wella yn y dyfodol.

Y Datrysiad:

1. Dylai Swyddogion UMAber barhau i weithio gyda'r brifysgol i sicrhau y caiff y polisi Asesiad ac Adborth ei weithredu'r llawn.
2. Dylai Swyddogion UMAber weithio gyda'r brifysgol i sicrhau bod pob aelod staff academiaidd yn ymwybodol o'r polisi, a bod ganddynt yr arfau i wneud defnydd llawn o'r mecanweithiau adborth.



3. Dylai Swyddogion UMAber hyrwyddo egwyddorion Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) ar gyfer adborth ac asesiad i'r brifysgol fel safonau arfer da yn y maes hwn.
4. Dylid rhoi cymorth i Gynrychiolwyr Academaidd mewn codi materion sy'n perthyn i asesiad ac adborth.
5. Bydd Swyddogion UMAber yn rhedeg ymgyrchoedd perthnasol ar asesiad ac adborth.
6. Dylid monitro sut mae'r brifysgol yn gweithredu polisiau sy'n alinio â'r polisi Asesiad ac Adborth, megis y polisi Cipio Darlithoedd, Isafswm Presenoldeb Gofynnol ar gyfer Blackboard a chanllawiau ar gyfer y defnydd o TurnItIn

Statws: Cyflawnwyd

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Materion Academaidd

Cyflwynwyd Gan: Lauren Marks

Pasiwyd: 2/27/2017, Senedd

Dyddiad Darfod: 2/1/2020

Gweithredu:

Bydd y Swyddog Materion Academaidd yn parhau â'i gwaith i fonitro'r polisiau hyn ac yn annog y brifysgol i'w cynnal i'r eithaf, y ogystal â chodi materion a cheisio adborth drwy'r Parth Academaidd a'r System Cynrychiolwyr Academaidd.

Mae'r Swyddog Materion Academaidd yn darparu cyfleoedd yn rheolaidd i fyfyrwyr roi adborth wyneb yn wyneb a thrwy gyfryngau cymdeithasol ar faterion yn ymwneud ag Asesu ac Adborth - yr unig faterion a godwyd yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/19 oedd y rheiny'n ymwneud ag Argraffu Traethodau Estynedig a chydymffurfio â Pholisi'r Brifysgol ar gyflwyno gwaith ar ffurf electronig, sydd wedi ei gynnwys yn Ymgyrch Cwrso Costau Cyrsiau.

Pan fydd materion sy'n effeithio ar fyfyrwyr yn cael eu trafod ym Mhwyllgorau'r Brifysgol, mae'r Swyddog Materion Academaidd wedi gwneud sylwadau, a bydd yn parhau i wneud hynny, yn unol â'r polisi cyfredol.

Y Defnydd o BlackBoard, Panopto a Turnitin

Dylai Swyddogion UMAber weithio gyda'r Brifysgol i sicrhau bod y polisi Isafswm Presenoldeb Gofynnol ac Isafswm Presenoldeb Uwch ar gyfer BlackBoard, polisi ar Gipio Darlithoedd a pholisi Asesiad ac Adborth yn cael eu gweithredu. Bydd UMAber yn annog y Brifysgol i ddiweddarau ac addasu polisïau lle defnyddir technolegau a safonau newydd, gan sicrhau bod pob aelod staff yn cynnal eu cyfrifoldebau mewn defnyddio'r arfau ar-lein uchod.

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Mae BwrddDu, Panopto a TurnItIn yn arfau ar-lein a fwriadwyd i gynorthwyo gweithgareddau dysgu myfyrwyr
2. Mae anghysondeb o ran defnydd staff academiaidd o'r arfau ar-lein uchod.
3. Mae gan y brifysgol bolisi Isafswm Presenoldeb Gofynnol ac Isafswm Presenoldeb Uwch ar gyfer BlackBoard, polisi ar Gipio Darlithoedd a pholisi Asesiad ac Adborth er mwyn sicrhau'r defnydd llawn o'r arfau ar-lein uchod mewn dysgu myfyrwyr.

Barn y Bobl:

1. Caiff dysgu myfyrwyr ei wella a'i gynorthwy'n aruthrol drwy'r defnydd cywir o'r arfau ar-lein uchod.
2. Dylai pob aelod staff academiaidd ddefnyddio'r arfau ar-lein hyn i'r un safon uchel.
3. Ni ddylai unrhyw fyfyrwr fod dan anfantais oherwydd bod staff academiaidd yn methu defnyddio'r arfau ar-lein hyn yn gywir.
4. Gellir gosod myfyrwyr ag anghenion dysgu penodol dan anfantais pan na chaiff yr arfau dysgu hyn eu defnyddio'n gywir gan aelod staff academiaidd.

Y Datrysiad:

1. Dylai Swyddogion UMAber weithio gyda'r brifysgol i sicrhau y caiff y polisïau uchod eu gweithredu.
 2. Dylai Swyddogion UMAber annog y brifysgol i ddiweddarau ac addasu polisïau lle defnyddir technoleg a safonau newydd
 3. Dylai Swyddogion UMAber fandadu'r brifysgol i sicrhau bod yr holl staff academiaidd yn diwallu eu cyfrifoldebau gan ddefnyddio'r arfau ar-lein uchod.
-



SENEDD!

Statws: Cyflawnwyd

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Materion Academaidd

Cyflwynwyd Gan: Lauren Marks

Pasiwyd: 2/27/2017, Senedd

Dyddiad Darfod: 2/1/2020

Gweithredu:

Bydd y Swyddog Materion Academaidd yn parhau â'u gwaith i fonitro'r polisiau hyn ac yn annog y brifysgol i'w cefnogi yn eu maint mwyaf, a byddant yn codi materion ac yn gofyn am adborth drwy'r Parth Academaidd a'r System Cynrychiolwyr Academaidd.

ERASMUS ar ôl Brexit

Dylai UMAber lobïo ar bob lefel i'r DU barhau i gael mynediad i ERASMUS ar gyfer holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, a dylai fod yn weithredol ym mhob ymgyrch genedlaethol a gynhelir gan UCM (Cymru/DU) parthed ERASMUS. Dylai UMAber geisio sicrwydd rheolaidd gan Brifysgol Aberystwyth ynglŷn â'u gweithgareddau lobïo o amgylch ERASMUS (a Brexit yn gyffredinol).

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Pleidleisiodd y DU o 52% i 48% i adael yr Undeb Ewropeaidd.
2. Mae'n aneglur ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU beth yw eu hamcanion o'r cyddrafodaethau ar adael.
3. Mae hefyd yn aneglur pa bryd yn union y caiff Erthygl 50 ei chychwyn.
4. Yn sgil y Refferendwm, ceisiodd Prifysgol Aberystwyth dawelu meddwl ymgeiswyr o'r UE y byddai Prifysgol Aberystwyth yn parhau i fod yn sefydliad agored i ymgeiswyr.
5. Mae gan Brifysgol Aberystwyth adran Ieithoedd Modern sy'n gofyn i fyfyrwyr dreulio blwyddyn dramor, ac mae llawer ohonyn nhw'n ymgymryd ag ERASMUS.
6. Ers y Refferendwm, mae'n aneglur a fydd ERASMUS yn parhau.

Barn y Bobl:

1. Mae ERASMUS yn gynllun gwerthfawr iawn i fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.
2. Dylid gwneud pob ymdrech i lobïo (ar bob lefel) er mwyn cynnal mynediad i ERASMUS ar gyfer myfyrwyr oll.
3. Mae Prifysgol Aberystwyth yn elwa o natur ddwyochrog ERASMUS oherwydd daw myfyrwyr o'r UE yma i astudio'n ogystal.
4. Gwelir Aberystwyth fel lle croesawus i ddod i fyw ac astudio ynddo, a dylai hyn barhau.

Y Datrysiad:

1. Dylai UMAber lobïo ar bob lefel er mwyn i'r DU barhau i gael mynediad i ERASMUS ar gyfer myfyrwyr AU.



2. Dylai UMABer chwarae rhan weithredol mewn unrhyw ymgyrchoedd cenedlaethol a gaiff eu rhedeg gan UCM (Cymru/DU) parthed ERASMUS.
3. Dylai UMABer geisio sicrwydd rheolaidd gan Brifysgol Aberystwyth ynglŷn â'u gweithgareddau lobïo o amgylch ERASMUS (a Brexit yn gyffredinol).

Statws: Rydym yn gweithio arno

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Materion Academaidd

Cyflwynwyd Gan: Lauren Marks

Pasiwyd: 2/27/2017, Senedd

Dyddiad Darfod: 2/1/2020

Gweithredu:

Mae'r Swyddog Materion Academaidd wedi pwysleisio dro ar ôl tro pa mor bwysig yw hi i'r DU gynnal mynediad i Erasmus i fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ar ôl Brexit, yn fewnol ac yn allanol, a bydd y parhau i wneud hynny.

Ar ôl rhyddhau bil Tynnu'r DU Allan o'r UE ym mis Chwefror 2019, lobïodd yr Undeb Ben Lake, AS dros Geredigion, i ystyried goblygiadau Brexit ar Erasmus wrth bleidleisio ar ddeddfwriaeth gysylltiedig fel rhan o'r broses o dynnu allan o'r UE. Roedd yr ymgyrch hon yn cynnwys annog myfyrwyr eraill i wneud hynny hefyd drwy anfon e-byst ac ysgrifennu at Ben Lake, gan ddefnyddio llythyr templed.

<https://www.umaber.co.uk/news/article/umabersu/ERASMUS-AR-L-BREXIT/>

Mae'r Swyddog Materion Academaidd a Chynghorydd y Myfyrwyr wedi cyfarfod yn rheolaidd â'r Swyddfa Ryngwladol a'r Gwasanaeth Cymorth i Fyfyrwyr er mwyn trefnu sesiynau gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr ynghylch Erasmus a Brexit, a byddwn yn parhau i wneud hyn wrth i'r broses o dynnu allan o'r UE barhau.

Mae'r Swyddog Materion Academaidd hefyd wedi bod mewn cysylltiad ag UCM y DU ac UCM Cymru i drafod lobïo llunwyr polisi ymhellach.

Llety Preifat

Dylai UMAber ddarparu llenyddiaeth a gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n chwilio am lety preifat a allai gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, restrau gwirio llety a chanllawiau ar arwyddo cytundebau. Dylem barhau i gynnal Ffair Dai a Llety'n flynyddol er mwyn ddarparu cyfle canolog i fyfyrwyr ganfod llety preifat, a gweithio gyda asiantaethau gosod eiddo a landlordiaid i leisio pryderon myfyrwyr ynglŷn â llety preifat yn yr ardal leol. Dylai UMAber weithio tuag at ddatblygu fforwm ar-lein ar gyfer hysbysebu a llunio graddfa ar gyfer llety preifat i fyfyrwyr Os oes llwyfan o'r fath yn bodoli eisoes, dylai UMAber wirio ei ddilysrwydd a'i hyrwyddo i fyfyrwyr os yw hynny'n briodol.

Manylion:

Y Ffeithiau:

1. Gall canfod llety preifat fod yn dasg ddryslyd a heriol i fyfyrwyr.
2. Mae ansawdd llety preifat yn Aberystwyth yn amrywio, a gall fod yn wael.
3. Nid oes unrhyw system ffurfiol mewn lle ar hyn o bryd yn UMAber i helpu myfyrwyr ganfod y llety gorau y gallant ei fforddio.

Barn y Bobl:

1. Dylai fod mwy o wybodaeth ar gael i fyfyrwyr sy'n chwilio am lety preifat i'w helpu i wneud penderfyniad.
2. Dylid dal asiantaethau a landlordiaid i gyfrif am ansawdd y llety sydd ar gael i fyfyrwyr.

Y Datrasiad:

1. Dylai UMAber ddarparu llenyddiaeth a gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n chwilio am lety preifat. Dylai hyn gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, restrau-gwirio ar gyfer llety a chanllawiau ar arwyddo cytundebau.
2. Dylai UMAber barhau i gynnal y Ffair Dai a Llety flynyddol er mwyn ddarparu cyfle canolog i fyfyrwyr ganfod llety preifat
3. Dylai UMAber weithio gydag asiantaethau gosod eiddo a landlordiaid preifat i leisio pryderon myfyrwyr ar lety preifat yn yr ardal.
4. Dylai UMAber weithio tuag at ddatblygu fforwm ar-lein ar gyfer hysbysebu a llunio graddfa ar gyfer llety preifat i fyfyrwyr Os oes llwyfan o'r fath yn bodoli eisoes, dylai UMAber wirio ei ddilysrwydd a'i hyrwyddo i fyfyrwyr os yw hynny'n briodol.

Statws: Rydym yn gweithio arno

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Llesiant

Cyflwynwyd Gan: Lauren Marks

Pasiwyd: 2/27/2017, Senedd

Dyddiad Darfod: 2/1/2020

Gweithredu:

Mae'r Swyddog Lles, gyda chymorth staff Undeb y Myfyrwyr, wedi datblygu Canllaw Tai a Llety a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017; diweddarwyd hwn wedyn yn 2018 er mwyn rhoi cymorth i fyfyrwyr yn ystod eu cyfnod yn Aberystwyth.

Mae Gwasanaeth Cyngori Undeb y Myfyrwyr hefyd wedi datblygu canllawiau ar-lein ar gyfer rhai o'r ymholiadau mwyaf cyffredin y mae'n eu derbyn ynghylch materion tai a llety.

<https://www.umaber.co.uk/cyngor/taiallety/>

Mae Undeb y Myfyrwyr yn parhau i drefnu Ffair Dai a Llety bob blwyddyn fel rhan o'i galendr o ddigwyddiadau, gan wahodd amrywiaeth o ddarparwyr a phartneriaid i fynychu'r digwyddiad. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi datblygu ei bresenoldeb ei hun yn y ffair yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yn unig yn cynnig cyngor a gwybodaeth ond hefyd gweithgareddau rhyngweithiol sydd wedi'u cynllunio i ennyn diddordeb myfyrwyr mewn materion perthnasol.

Mae'r Swyddog Llesiant a Chynghorydd y Myfyrwyr yn parhau i ymgysylltu â'r Fforwm Landlordiaid Lleol, yn ogystal â mentrau eraill drwy Gyngor Ceredigion a Phrifysgol Aberystwyth sy'n ymwneud â Thai a Llety Myfyrwyr. Yn 2018 cynhaliodd yr Undeb arolwg Barnu eich Landlord i ganfod profiadau myfyrwyr sy'n byw mewn llety sy'n eiddo'r brifysgol a llety yn y sector preifat.

Er nad oes system ar-lein ar gyfer barnu eich landlord llety preifat wedi'i chyflwyno eto, mae'r Undeb yn parhau i ystyried llwyfannau ar gyfer hyn.

Hyrwyddo Yfed Cyfrifol

Bydd UMABer yn hyrwyddo diwylliant o yfed cyfrifol ac yn darparu gwybodaeth i fyfyrwyr ar ddeilliannau'r camddefnydd o alcohol. Bydd UMABer yn sicrhau diogelwch ei aelodau ym mhob digwyddiad cymdeithasol a drefnir gan UMABer, yn ogystal â darparu Clybiau

Manylion:

Y Ffeithiau:

1. Mae gan UMABer gyfrifoldeb dros ddiogelwch ei aelodau.
2. Mae UMABer yn cydnabod, i rai myfyrwyr, bod yfed alcohol yn rhan o brofiad myfyrwyr a bywyd prifysgol.
3. Mae gan UMABer gyfrifoldeb dros hyrwyddo diwylliant cymdeithasol cadarnhaol, ond heb gyfyngu'n ormodol ar yr hyn y gall ei aelodau ei wneud, neu ddim ei wneud. Gall y camddefnydd o alcohol, neu or-yfed, arwain at broblemau iechyd a'r risg sy'n perthyn i hynny, i aelodau UMABer.

Y Datrysiad:

1. Bydd UMABer yn hyrwyddo diwylliant o yfed cyfrifol.
2. Bydd UMABer yn darparu gwybodaeth i fyfyrwyr ar ddeilliannau'r camddefnydd o alcohol.
3. Bydd UMABer yn darparu pwyllgorau'r Clybiau a Chymdeithasau â hyfforddiant parthed eu cyfrifoldebau o ran diogelwch eu haelodau mewn digwyddiadau cymdeithasol.
4. Bydd UMABer yn sicrhau diogelwch ei aelodau ym mhob digwyddiadau cymdeithasol a drefnir gan UMABer

Statws: Rydym yn gweithio arno

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Llesiant

Cyflwynwyd Gan: Lauren Marks

Pasiwyd: 2/27/2017, Senedd

Dyddiad Darfod: 2/1/2020



SENEDD!

Gweithredu:

Mae'r Swyddog Lles yn aelod o Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol ac yn archwilio'n rheolaidd ar hyrwyddo yfed diogel.

Mae rolau pwyllgorau sy'n berthnasol i yfed (ysgrifennydd cymdeithasol a lles) wedi'u hyfforddi ar yfed yn ddiogel.

Byddwn yn cynllunio mwy o ddigwyddiadau heb alcohol i'r UM am y flwyddyn i ddod.

Nid yw Undeb y Myfyrwyr bellach yn rhedeg bar neu ddigwyddiadau.



Bywyd Myfyrwyr: Mwy na dim ond Gradd (Cyllido Chwaraeon)

Cred UMAber na ddylai fod rhaid i fyfyrwyr dalu costau eithafol i gyfranogi mewn chwaraeon neu weithgareddau grwpiau myfyrwyr; dylid eu trin fel partneriaid ac nid fel 'cwsmeriaid gan Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol.

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Mae cyfleoedd myfyrwyr (chwaraeon, cymdeithasau, gwirfoddoli, gweithgareddau grŵp myfyrwyr a.y.b.) yn rhan bwysig o fywyd myfyrwyr.
2. Mae cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr yn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogadwyedd yn y dyfodol.
3. Mae cyfleoedd myfyrwyr yn helpu i gadw myfyrwyr yn hapus, yn iach ac yn brysur.
4. Mae cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr yn bwysig i fyfyrwyr a dylid eu cadw, eu cynnal a'u datblygu ar gyfer myfyrwyr y dyfodol.
5. Mae cyfranogi yng nghlybiau Chwaraeon Colegau a Phrifysgolion Prydain (BUCS) o fantais allweddol o ran recriwtio myfyrwyr.
6. Chwaraeon yw cyfran helaeth o gyfleoedd myfyrwyr.
7. Gall chwaraeon fod yn ddrud i'w trefnu a chyfranogi ynddynt.

Barn y Bobl:

1. Ni ddylai myfyrwyr orfod talu costau ychwanegol i gymryd rhan mewn grwpiau myfyrwyr.
2. Mae Prifysgol Aberystwyth yn hyrwyddo clybiau a chymdeithasau UMAber, ac yn eu defnyddio fel arfau marchnata i annog ymgeiswyr i Brifysgol Aberystwyth.
3. Mae Prifysgol Aberystwyth yn gweithredu Canolfan Chwaraeon, a chredwn y dylid rhoi blaenoriaeth i fyfyrwyr, grwpiau myfyrwyr a staff
4. Mae Prifysgol Aberystwyth yn gwneud newidiadau i'w model cyllido chwaraeon, gan adael clybiau UMAber ar gyrion y drafodaeth.

Y Datrysiad:



1. Cred UMAber na ddylai fod rhaid i fyfyrwyr dalu costau eithafol i gyfranogi mewn chwaraeon neu weithgareddau grwpiau myfyrwyr.
2. Dylid trin grwpiau myfyrwyr ac UMAber fel partneriaid ac nid fel 'cwsmeriaid' gan Ganolfan Chwaraeon y brifysgol.
3. Dylai Prifysgol Aberystwyth ddangos ei chefnogaeth i glybiau chwaraeon a grwpiau myfyrwyr drwy weithio mewn partneriaeth ag UMAber i'w helpu i gyllido chwaraeon a grwpiau myfyrwyr yn briodol.
4. Dylai Prifysgol Aberystwyth ddarparu cyllid craidd digonol ar gyfer y Ganolfan Chwaraeon er mwyn darparu mynediad i grwpiau myfyrwyr gael ymarfer a chwarae gemau cystadleuol.

Statws: Cyflawnwyd

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Cyfleoedd

Cyflwynwyd Gan: Jasmine Cross

Pasiwyd: 2/27/2017, Senedd

Dyddiad Darfod: 2/27/2020

Gweithredu:

Cyflwynwyd y model newydd ar gyfer cyllido chwaraeon ym Mai 2017 - cafwyd ymrwymiad gan y Brifysgol i gyllido UMAber, gyda £50k wedi'i neilltuo ar gyfer darpariaeth BUCS.

Y Bil Diddymu Mawr

Dylai UMABer fynd ati i newid polisi er mwyn sicrhau ei fod yn gyfoes â rôl a theitl diweddaraf y Swyddogion, a dylai ddiweddarau pob polisi cyfredol â'r teitlau newydd yn sgil yr adolygiad o rôl.

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Ym Mawrth 2017, bydd UMABer yn cynnal eu hetholiadau blynyddol ar gyfer (ymysg swyddi eraill) rolau'r Swyddogion Ymddiriedolwyr Llawn-amser.
2. Yn Ionawr 2017, cwblhaodd UMABer yr Adolygiad o Rôl y Swyddogion a gomisiynwyd, a arweiniodd at newidiadau yn nheitlau a phortffolio'r Swyddogion.
3. Mae gan UMABer werth blynyddoedd o bolisiau sy'n cyfeirio at wahanol fersiynau o deitlau swyddogion.
4. Mae enwau rhai o'r Swyddogion Rhan-amser hefyd wedi newid yn sgil yr Adolygiad o Rôl.
5. Cynhelir etholiadau ar gyfer y strwythur Swyddogion newydd ym Mawrth 2017, a daw i rym ar 1 Gorffennaf 2017.
6. Disodlwyd y Swyddogion rhan-amser canlynol: Dirprwy Lles, Chwaraeon a Chymdeithasau â "Pharthau" ffurfiol (fforymau) er mwyn sicrhau bod llais myfyrwyr yn y meysydd hyn yn fwy effeithiol.

Barn y Bobl:

1. Rhaid cadw polisi'n gyfoes.
2. Mae UMABer wedi methu sicrhau bod polisi'n cael ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau mewn strwythurau swyddogion a'r undeb dros y blynyddoedd.
3. Mae'n ddibwrpas parhau tua'r dyfodol, ar ôl ailstrwythuro sylweddol, â pholisi sy'n cyfeirio at hen swyddi.
4. Wrth symud ymlaen, dylai UMABer fynd ati'n rhagweithiol i newid dogfennaeth yn ôl yr angen pan fo newidiadau i deitl/rôl Swyddogion.

Y Datrysiaid:

1. Dylid cyfeirio unrhyw achos o swyddog yn cael ei restru mewn polisi lle nad yw rôl y swydd honno bellach yn bodoli at y Llywydd.
2. Dylai'r canlynol ddod i rym o 1 Gorffennaf 2017:



2a. Ym mhob achos o fewn polisi UMAber, dylid disodli 'Llywydd' â 'Swyddog Datblygu'r Undeb'

2b. Ym mhob achos o fewn polisi UMAber, dylid disodli 'Swyddog Addysg' â 'Swyddog Materion Academaidd'

2c. Ym mhob achos o fewn polisi UMAber, dylid disodli 'Swyddog Lles' â 'Swyddog Llesiant'

2d. Ym mhob achos o fewn polisi UMAber, dylid disodli 'Swyddog Gweithgareddau' (neu rôl gyfatebol) â 'Swyddog Cyfleoedd'

2e. Ym mhob achos o fewn polisi UMAber, dylid disodli 'Swyddog Materion Cymreig a Llywydd UMCA' (neu unrhyw gyfuniad o'r rhain) â 'Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA'

2f. Ym mhob achos o fewn polisi UMAber, dylid disodli 'Swyddog Cynladwyedd a Moeseg' (neu rôl gyfatebol) â 'Swyddog yr Amgylchedd a Chynladwyedd'

2g. Ym mhob achos o fewn polisi UMAber, dylid disodli 'Swyddog LHDT+' â 'Swyddog LHDTC+'

2h. Ym mhob achos o fewn polisi UMAber, dylid disodli 'Swyddog Croenddu a Lleiafrifoedd Ethnig' (neu rôl gyfatebol) â 'Swyddog Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig'

3. Dylai UMAber fynd ati i newid polisi er mwyn sicrhau ei fod yn gyfoes â rôl a theitl diweddaraf y Swyddogion

Statws: Cyflawnwyd

Swyddog Gyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd Gan: Ryan Myles

Pasiwyd: 2/27/2017, Senedd

Dyddiad Darfod: 2/27/2020

Gweithredu:

Mae pob polisi cyfredol wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r polisi hwn.



Condomau Am Ddim

Dylai UMABer barhau i hyrwyddo a darparu condomau am ddim i fyfyrwyr, lle gallan nhw gael mynediad iddynt y tu allan i oriau gwaith, mewn lle sy'n hygyrch i fyfyrwyr oll. Dylai UMABer weithio gyda gwasanaethau iechyd lleol i hyrwyddo a datblygu Gwasanaetha.

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Mae UMABer yn cynnig condomau am ddim i fyfyrwyr.
2. Mae condomau am ddim ar gael gan Swyddogion UMABer, Derbynfya UMABer a gan Gyngorydd Myfyrwyr UMABer.
3. Nid yw'r gwasanaethau hyn ond ar gael yn ystod oriau gwaith.

Barn y Bobl:

1. Mae condomau'n arf atal cenhedlu pwysig, sy'n helpu i atal HDRh a beichiogi damweiniol
2. Gellir ystyried condomau i fod yn ddrud i'w prynu o siopau
3. Mae Gwasanaethau Iechyd Rhywiol hefyd ar gael dim ond yn ystod oriau gwaith, ac weithiau drwy apwyntiad yn unig.
4. Mae'r ddarpariaeth o gondomau am ddim yn sicrhau tawelwch meddwl, llai o faich ariannol, ac atal cenhedlu ar gyfer myfyrwyr.

Y Datrysiad:

1. Dylai UMABer barhau i ddarparu condomau am ddim i fyfyrwyr.
2. Dylai UMABer fuddsoddi mewn peiriant sy'n dosbarthu condomau am ddim, fel y gall myfyrwyr gael mynediad iddynt y tu allan i oriau gwaith, mewn lle sy'n hygyrch i fyfyrwyr oll.
3. Dylai UMABer hyrwyddo'r ffaith eu bod yn darparu condomau am ddim i fyfyrwyr.
4. Dylai UMABer, lle mae hynny'n bosib, gynnig condomau sy'n rhydd o latecs.
5. Dylai UMABer weithio gyda gwasanaethau iechyd lleol i hyrwyddo a datblygu gwasanaethau Iechyd Rhywiol yn lleol.
6. Dylai UMABer ddarparu gwybodaeth ac arweiniad ar ryw diogel a chydysniad.



Statws: Cyflawnwyd

Swyddog Gyfrifol: Swyddog Llesiant

Cyflwynwyd Gan: Lauren Marks

Pasiwyd: 2/27/2017, Senedd

Dyddiad Darfod: 2/27/2020

Gweithredu:

Ym Mai 2017, ail-lansiodd UMAber eu hymgyrch condomau am ddim (latecs a rhydd o latecs) ochr yn ochr â nwyddau glanweithdra. Buddsoddodd UMAber mewn peiriannau dosbarthu ar gyfer y condomau a'r nwyddau glanweithdra am ddim. Cynhyrchodd UMAber bosteri ar gyfer adeilad yr Undeb a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i hysbysu myfyrwyr ynglŷn â'r condomau a'r nwyddau glanweithdra. Mae UMAber wedi bod yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol ar faterion sy'n perthyn i iechyd rhywiol a gwasanaethau iechyd rhywiol.

Yn dilyn creu Hyb Swyddogion yn y gofod tanddaearol yn Undeb y Myfyrwyr ym mis Medi 2018, gall myfyrwyr bellach gael gafael ar gondomau a chynhyrchion glanweithiol am ddim, ac rydym yn parhau i'w hyrwyddo.

Tacluso Polisi

Er mwyn tacluso a gwella hygyrchedd Polisi UMABer, gan ddiddymu amryw o hen bolisiau a disodli rhai â fersiynau wedi'u diweddarau. Dylai UMABer adolygu ei bolisi'n rheolaidd a chynorthwyo ei aelodau pan fyddant yn mynd ati i ysgrifennu syniadau ar gyfer y Cyngor neu'r CCB.

Manylion:

Y ffeithiau:

1. Mae gan UMABer gryn lawer o bolisiau byw, nad ydynt bellach yn berthnasol.
2. Gall polisi sydd bellach ddim yn gyfoes beri problemau gan ei fod yn cyfyngu ar yr hyn y gallwn ei wneud â'r polisi, gan nad yw'r wybodaeth bellach yn gywir.
3. Mae myfyrwyr yn teimlo na ddylai rhai polisiau fod yn berthnasol yn sefyllfa bresennol UMABer.
4. Nid yw'r rhestr bolisi sydd ar wefan UMABer yn gyfoes, ac felly nid yw'r dryloyw.

Barn y Bobl:

1. Bydd tacluso'r polisiau cyfredol yn ei gwneud yn haws i fyfyrwyr weld beth mae UMABer yn credu ynddo.
2. Ni fydd polisiau sydd bellach ddim yn gyfoes yn cyfyngu ar sut mae UMABer yn gweithio dros fyfyrwyr.
3. Dylai UMABer fod yn dryloyw o ran pa bolisi sydd ganddo a sut mae'n gweithredu ar hyn.

Y Datrysiad:

1. Diddymu'r polisiau canlynol: Ein Hundeb - Nid Er Elw, Cwrw Go Iawn, Dewch â'r Gofeb Rhyfel yn Ôl i'r Undeb, y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yng Nghymru, Agor Etholiadau i Bawb, Lleihau'r Cyfnod Canfasio, Adolygiad Rôl yr UM 2015.
2. Diddymu'r polisiau canlynol, ond eu disodli â pholisiau amgen cyfoes sy'n llai cyfyngedig; dylid pleidleisio arnynt ar wahân unwaith y caiff yr hen bolisiau eu diddymu:
 - 2a. Anghysondebau o ran y defnydd o Bwrdd Du ymhlith Staff (Syniad 2: Y Defnydd o Bwrdd Du, Panopto a TurnItIn).



2b. Adnabod Anawsterau Dysgu (Caiff y polisi hwn ei ddisodli yng nghyfarfod nesaf yr Undeb, gan fod hwn yn cael ei ddablygu'n gyfochrog ag ymgyrchoedd Addysg cyfredol).

2c. Aseiad ac Adborth (Syniad 3: Aseiad ac Adborth).

2d. Hyrwyddo Condomau Am Ddim (Syniad 4: Condomau Am Ddim).

2e. Fforwm Llety Preifat (Syniad 5: Llety Preifat).

2f. Cadw eich Addewid...Cadw ERASMUS (Syniad 6: ERASMUS ar ôl Brexit).

2g. Dim Mwy o Carnage (Syniad 7: Hyrwyddo Yfed Cyfrifol).

3. Dylai Swyddogion UMAber weithio gyda thîm staff UMAber i sicrhau bod holl bolisiau UMAber wedi'u rhestru'n eglur ar ein gwefan, a bod y rhestr yn parhau i fod yn gyfoes.

4. Dylai Swyddogion UMAber adolygu polisiau'n rheolaidd cyn iddynt ddarfod, er mwyn sicrhau bod y geiriad yn gyfoes ac yn parhau i fod yn ymarferol i UMAber, gan wneud newidiadau'n ddemocrataidd lle bo angen.

5. Dylai UMAber gynnig cefnogaeth i fyfyrwyr ar gyfer ysgrifennu polisi i'r rheiny sydd am gyflwyno cynigion polisi i Gyngor yr Undeb neu i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, gan sicrhau y gallwn wneud y gorau o syniadau myfyrwyr.

Statws: Cyflawnwyd

Swyddog Gyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd Gan: Lauren Marks

Pasiwyd: 2/27/2017, Senedd

Dyddiad Darfod: 2/27/2020

Gweithredu:

Gweithredwyr y polisi yng nghyfarfod y cyngor 02/2017. Mae angen i UM egluro sut gall myfyrwyr geisio cynnig cymorth drwy ysgrifennu polisi a chynigion ar gyfer cyfarfodydd y cyngor y y dyfodol. Mae UMAber wedi sefydlu adolygiad polisi rheolaidd i fonitro polisi sy'n darfod.